# Ymateb i ymgynghoriad ar reoliadau drafft a chanllawiau statudol ar gyfer cynllun trwyddedu mandadol ar gyfer triniaethau arbennig yng Nghymru

## Ebrill 2024

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd trwy godi safonau rheoleiddio a chofrestriad pobl sy'n gweithio mewn iechyd a gofal. Rydym yn gorff annibynnol, sy'n atebol i Senedd y Deyrnas Unedig. Ceir rhagor o wybodaeth am ein gwaith a dull o weithredu ar www.professionalstandards.org.uk

1.2 Yn rhan o'n gwaith, rydym yn:

- Goruchwylio'r deg rheoleiddiwr gweithwyr iechyd a gofal ac yn adrodd yn flynyddol i'r Senedd ar eu perfformiad
- Achredu cofrestrau ymarferwyr gofal iechyd mewn galwedigaethau nad ydynt wedi eu rheoleiddio gan dan y gyfraith rwy'r rhaglen Cofrestrau Achrededig (AR)
- Cyflawni ymchwil ac yn cynghori pedair llywodraeth y Deyrnas Unedig ar welliannau mewn rheoleiddio
- Hyrwyddo rheoleiddio cyffyrddiad cywir a chyhoeddi papurau ar bolisi ac ymarfer rheoleiddio.

## 2. Sylwadau cyffredinol

2.1 Rydym yn croesawu'r cyfle i roi sylwadau ar y rheoliadau a'r canllawiau drafft ar gyfer y cynllun trwyddedu arfaethedig ar gyfer triniaethau arbennig yng Nghymru.

2.2 Gwnaethom ymateb i ymgynghoriad blaenorol Llywodraeth Cymru yn 2022 gan groesawu'r cynllun trwyddedu arfaethedig ond gan dynnu sylw at yr angen i'r cynllun trwyddedu gyd-fynd â'r dirwedd reoleiddiol bresennol. Yn benodol, gwnaethom sylwadau ar y cynigion ar gyfer esemptiadau ar gyfer categorïau penodol o ymarferwyr, gan gynnwys y penderfyniad i beidio â chaniatáu esemptiad i ymarferwyr ar Gofrestr Achrededig gan fod aelodaeth o'r cofrestrau hyn yn wirfoddol.

2.3 Rydym yn cydnabod y gallai fod yn ofynnol i nifer o'r rhai sydd ar Gofrestrau Achrededig wneud cais am drwydded beth bynnag gan nad yw'r mwyafrif yn gweithio o fewn safleoedd a reoleiddir gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Fodd bynnag, nid ydym yn credu bod y dadleuon dros beidio ag ymestyn esemptiad i ymarferwyr Cofrestrau Achrededig perthnasol ar y sail

bod aelodaeth yn wirfoddol yn glir ac y gallai'r penderfyniad hwn arwain at ganlyniadau anfwriadol i ddiogelu'r cyhoedd.

2.4 Mae'r cynllun Cofrestrau Achrededig yn fecanwaith y Deyrnas Unedig gyfan a gefnogir gan y llywodraeth i godi safonau ymhlith y gweithlu heb ei reoleiddio ac yn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd a chyflogwyr bod ymarferwyr yn bodloni safonau addysg a hyfforddiant penodol, yn cydymffurfio â chodau ymarfer ac yn hyrwyddo mynediad at fecanweithiau cwyno priodol.

2.5 Er y bydd y drwydded yn ei gwneud yn ofynnol i ymarferwyr fodloni meini prawf penodol gan gynnwys meddu ar yswiriant priodol a safonau sylfaenol yn ymwneud ag atal heintiau, ni fydd yn rhoi unrhyw sicrwydd y tu hwnt i hyn mewn perthynas ag ymddygiad a chymhwysedd ehangach yr ymarferydd.

2.6 Gan fod trwyddedu felly yn amddiffyniad ychwanegol yn hytrach nag amgen i'r amddiffyniadau a ddarperir gan Gofrestr Achrededig, bydd yn bwysig bod y cyhoedd yn gallu gwahaniaethu rhwng deiliaid trwyddedau o ran lefel eu cymhwysedd. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried beth arall y gall ei wneud i helpu'r cyhoedd i sefydlu lefel cymhwysedd ymhlith y rhai sydd â thrwydded megis cyfeirio at y rhai sydd ar Gofrestr Achrededig berthnasol.

2.7 Mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad blaenorol ar drwyddedu yn awgrymu y dylai cofrestrau o ymarferwyr heb eu rheoleiddio geisio cydweithio i gyflawni rheoleiddio statudol. Fodd bynnag, mae'n parhau i fod yn bolisi gan bedair Llywodraeth y DU, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i gefnogi Cofrestrau Achrededig fel dulliau amgen o sicrwydd pan na fernir bod angen rheoleiddio statudol, a byddem wedi hoffi gweld hyn yn cael ei adlewyrchu. Nododd ymgynghoriad pedair gwlad 2021 ar feini prawf ar gyfer penderfynu pryd mae angen rheoleiddio statudol: *'Lle nad yw'r llywodraeth a'r gweinyddiaethau datganoledig yn ystyried bod angen rheoleiddio proffesiwn yn statudol, rydym yn annog sefydliadau sy'n cofrestru gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol i geisio achrediad gan y PSA*.'[1]

2.8 Rydym wedi nodi rhagor o fanylion am ein hatebion i'r cwestiynau ar y rheoliadau a'r canllawiau.

## 3. Sylwadau manwl

### Rheoliadau trwyddedau triniaethau arbennig (Cymru) 202X

### *Cwestiwn 1. (a) A ydych chi'n meddwl bod y rheoliadau drafft hyn yn nodi'n ddigonol sut y mae unigolion i gael eu trwyddedu?*

3.1 Mae'n ymddangos bod y rheoliadau drafft yn nodi'n ddigonol sut y mae unigolion i gael eu trwyddedu.

[1] https://www.gov.uk/government/consultations/healthcare-regulation-deciding-when-statutory-regulation-is-appropriate/healthcare-regulation-deciding-when-statutory-regulation-is-appropriate#alternatives-to-statutory-regulation

***(b) A oes unrhyw beth aneglur, ar goll y dylid ei gynnwys, neu wedi ei gynnwys na ddylai fod?***

3.2 Ymhellach i'n sylwadau cyffredinol a'r rhai o dan gwestiwn 3, hoffem i Lywodraeth Cymru ystyried ymhellach a ellid gwneud mwy drwy'r cynllun trwyddedu i gyfeirio'r cyhoedd at ymarferwyr sy'n ddarostyngedig i safonau cymhwysedd sefydledig. Byddai hyn yn cynnwys y rhai ar Gofrestr Achrededig. Gellid gwneud hyn naill ai ar y gofrestr o ddeiliaid trwydded neu o fewn unrhyw ganllawiau a gynhyrchir ar gyfer y cyhoedd.

3.3 Os na ddarperir unrhyw wybodaeth ychwanegol i'r cyhoedd, yna mae risg y bydd y cyhoedd yn cyfuno dal trwydded â sicrwydd ynghylch cymhwysedd ymarferwr a allai godi risg i ddiogelu'r cyhoedd. Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed pan fo deiliad y drwydded yn weithiwr proffesiynol a reoleiddir yn statudol, gan y gallai'r driniaeth arbennig fod y tu allan i'w haddysg a'i hyfforddiant proffesiynol craidd.

3.4 Fel y nodwyd, mae'r cynllun Cofrestrau Achrededig yn ddewis amgen a gefnogir gan bedair gwlad yn lle rheoleiddio statudol. Er bod cyflwyno safonau gofynnol ychwanegol (drwy'r drwydded) ar gyfer y rhai sy'n cyflawni'r triniaethau arbennig a enwir yn gwbl briodol, mae'n bwysig bod hyn yn ategu yn hytrach na thanseilio'r amddiffyniadau sydd eisoes ar waith.

## Rheoliadau mangreoedd a cherbydau triniaethau arbennig a gymeradwywyd (Cymru) 202X

***Cwestiwn 2. (a) A ydych chi'n meddwl bod y rheoliadau drafft hyn yn nodi'n ddigonol sut y mae eiddo a cherbydau i gael eu cymeradwyo?***

3.5 Mae'n ymddangos bod y rheoliadau drafft yn nodi'n ddigonol sut y mae eiddo a cherbydau i gael eu cymeradwyo.

***(b) A oes unrhyw beth aneglur, ar goll y dylid ei gynnwys, neu wedi ei gynnwys na ddylai fod?***

3.6 Fel y'i drafftiwyd, mae'n ymddangos bod y rheoliadau'n gwahardd ymweliadau cartref oni bai bod y driniaeth yn cael ei darparu at ddibenion gofal lliniarol. Gall hyn godi materion cydraddoldeb gan y gallai rhai grwpiau o gleifion fel yr henoed neu'r rhai â chyflyrau iechyd difrifol neu hirdymor fod yn llai tebygol o allu teithio i glinig i dderbyn triniaeth.

## Rheoliadau unigolion sydd wedi'u hesemptio â thriniaethau arbennig (Cymru) 202X

***Cwestiwn 3. (a) A ydych chi'n meddwl bod y rheoliadau drafft hyn yn nodi'n ddigonol sut y mae'r unigolion a ddynodwyd i gael eu hesemptio?***

3.7 Mae'n ymddangos bod y rheoliadau drafft yn nodi'n ddigonol sut y mae unigolion as ddynodwyd i gael eu hesemptio.

***(b) A oes unrhyw beth aneglur, ar goll y dylid ei gynnwys, neu wedi ei gynnwys na ddylai fod?***

3.8 Fel y crybwyllwyd yn ein sylwadau cyffredinol, mae gennym rai pryderon ynghylch y dull cyffredinol o ymdrin ag esemptiadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gynnig. Gall hyn olygu bod angen newid y ffordd y disgrifir esemptiadau naill ai yn y rheoliadau neu'r canllawiau cysylltiedig.

3.9 Er ein bod yn cydnabod y gallai fod yn ofynnol i ymarferwyr ar Gofrestr Achrededig gael trwydded yn seiliedig ar feini prawf eraill (h.y. gweithio y tu allan i eiddo a reoleiddir gan AGIC), nid ydym yn credu bod y rhesymeg bod y cynllun yn wirfoddol yn rhesymegol. Fel yr awgrymwyd yn ein hymateb gwreiddiol, credwn y dylai fod wedi bod yn bosibl diffinio'r esemptiad ar y sail bod ymarferydd yn parhau ar y Gofrestr Achrededig sy'n golygu pe bai'n gadael aelodaeth o'r gofrestr, byddai'n ofynnol iddo wedyn gael trwydded.

3.10 Effaith y dull arfaethedig o ymdrin ag esemptiadau fydd esemptio unigolion a allai fod â lefel cymhwysedd is mewn gwirionedd na'r rhai ar y Gofrestr Achrededig berthnasol (er enghraifft Cyngor Aciwbigo Prydain) na fydd eu haelodau wedi'u hesemptio.

3.11 Rydym wedi awgrymu yn ein hateb i gwestiwn 1 y gallai fod angen cyfeirio pellach o fewn gwybodaeth a ddarperir i'r cyhoedd am ystyr trwydded er mwyn atal y cyhoedd rhag ei gyfuno â marc cymhwysedd. Fodd bynnag, efallai y bydd angen gwybodaeth gliriach hefyd am y sail y mae gweithiwr proffesiynol wedi'i esemptio rhag y gofyniad i gael trwydded.

3.12 Mae cynigion esemptio Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar y mesurau diogelu sy'n deillio o fod yn weithiwr proffesiynol a reoleiddir yn statudol h.y. yn gofrestrydd un o'r rheolyddion statudol rhestredig[2] a'r ddau broffesiwn ychwanegol sydd ar gofrestr y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) (ciropodydd/podiatrydd a ffisiotherapydd) – mae'r ddau olaf hyn i'w trin fel rhai sydd wedi'u hesemptio rhag cael eu trwyddedu'n benodol o'r gofyniad i gael trwydded triniaeth arbennig mewn perthynas ag aciwbigo.

3.13 Er ein bod yn cydnabod bod y ffaith bod cofrestru gyda rheoleiddiwr statudol yn dod â gweithiwr proffesiynol o fewn y broses addasrwydd i ymarfer, mae'n bwysig nodi, er bod rheolyddion statudol fel yr HCPC yn mynnu bod gweithwyr proffesiynol yn gweithio o fewn eu cwmpas ymarfer, nid ydynt yn gyffredinol yn diffinio cwmpas ymarfer eu hunain. Yn hytrach, caiff hyn ei adael i'r cyrff proffesiynol yn aml. Mae'r rhain yn sefydliadau aelodaeth y mae llawer o unigolion cofrestredig (ond nid pob un) yn aelodau ohonynt. Mae aelodaeth cyrff proffesiynol ar wahân i'r gofyniad cyfreithiol i gofrestru gyda'r rheoleiddiwr

[2] • y Cyngor Meddygol Cyffredinol
• y Cyngor Deintyddol Cyffredinol
• y Cyngor Optegol Cyffredinol
• y Cyngor Osteopathig Cyffredinol
• y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol
• y Cyngor Fferyllol Cyffredinol
• yn ddarostyngedig i Adran 26(6), Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon
• y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

ar gyfer rhai proffesiynau ac mae'n gwbl wirfoddol ac felly ni ddylid ei gyfuno â'r mesurau diogelu a ddarperir drwy fod ar gofrestr statudol ei hun.

3.14 Er ei bod yn bosibl y gall y rheoleiddiwr gymryd camau os codwyd cwyn yn erbyn unigolyn cofrestredig wrth gyflawni triniaeth arbennig, dylid ei gwneud yn glir i'r cyhoedd nad yw'r ffaith fod rhywun wedi cofrestru gyda rheoleiddiwr statudol o reidrwydd yn cyfleu unrhyw sicrwydd ynghylch eu cymhwysedd i roi'r driniaeth arbennig o dan sylw.

**Rheoliadau pwyllgorau trwyddedu triniaethau arbennig (Cymru) 202X**

***Cwestiwn 4. (a) A ydych yn meddwl bod y rheoliadau drafft hyn yn nodi'n ddigonol sut y dylai pwyllgorau trwyddedu weithredu at ddibenion y cynllun trwyddedu mandadol hwn?***

3.15 Dim sylw.

***(b) A oes unrhyw beth aneglur, ar goll y dylid ei gynnwys, neu wedi ei gynnwys na ddylai fod?***

3.16 Dim sylw.

**Rheoliadau gwrthrychau rhagnodedig ar gyfer tyllu'r corff (Cymru) 202X**

***Cwestiwn 5. (a) A ydych chi'n meddwl bod y rheoliadau drafft hyn yn rhoi diffiniad digonol o 'wrthrych' at ddibenion tyllu'r corff nad yw'n rhan bersonol o'r corff yn y cynllun trwyddedu hwn?***

3.17 Dim sylw.

***(b) A oes unrhyw beth aneglur, ar goll y dylid ei gynnwys, neu wedi ei gynnwys na ddylai fod?***

3.18 Dim sylw.

**Cyfarwyddyd Statudol**

***Cwestiwn 6. (a) A ydych chi'n meddwl bod y canllawiau statudol drafft yn esbonio'n ddigonol sut y dylai awdurdod lleol benderfynu ar 'addasrwydd person i roi triniaeth arbennig' at ddibenion trwyddedu o dan y cynllun trwyddedu mandadol, pan fydd amheuaeth ynghylch hyn?***

3.19 Mae'n ymddangos bod y canllawiau'n esbonio'n ddigonol sut y dylai awdurdod lleol benderfynu ar addasrwydd person i roi triniaeth arbennig o dan y cynllun trwyddedu.

***(b) A oes unrhyw beth yn aneglur yn y canllawiau statudol drafft y dylid eu hegluro ymhellach?***

3.20 Mae ffocws y canllawiau drafft yn gymharol gul ar yr amgylchiadau penodol ar gyfer penderfynu a yw person yn ffit i roi triniaeth arbennig o dan y cynllun trwyddedu. Er ein bod yn cydnabod mai dyma brif ddiben y canllawiau, byddem wedi hoffi gweld rhagor o wybodaeth am sut y dylai awdurdodau lleol

geisio gweithredu'r cynllun trwyddedu er mwyn diogelu'r cyhoedd cymaint â phosibl.

3.21 Yn ychwanegol at bwyntiau eraill yr ydym wedi'u codi yn ein hymateb, gallai hyn gynnwys:

- Darparu eglurder i'r cyhoedd ar yr hyn y mae'r drwydded yn ei gyfleu (a'r hyn nad yw'n ei gyfleu) a chyfeirio'r cyhoedd at ragor o wybodaeth i'w helpu i ddewis ymarferydd ymhlith y rhai sy'n dal trwydded, er enghraifft os yw ymarferydd hefyd yn aelod o Gofrestr Achrededig berthnasol.
- Darparu eglurder ynghylch yr hyn a gyflëir gan esemptiad, i gynorthwyo'r cyhoedd i benderfynu a ydynt am geisio triniaeth gan unigolyn sydd wedi'i esemptio.

***(c) A oes unrhyw beth mewn perthynas â phennu 'addasrwydd person i roi triniaeth arbennig' sy'n aneglur neu ar goll o'r canllawiau statudol drafft?***

3.22 Dim sylwadau pellach.

**Cwestiynau statudol**

***Cwestiwn 7. Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynllun trwyddedu mandadol ar gyfer triniaethau arbennig yng Nghymru yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.***

- ***Pa effeithiau ydych chi'n meddwl fyddai yna?***
- ***Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?***

3.23 Dim sylw.

***Cwestiwn 8. Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gellid trefnu neu newid y cynllun trwyddedu mandadol a gynigir ar gyfer Triniaethau Arbennig yng Nghymru er mwyn sicrhau:***

- ***effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal***
- ***unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg***

3.24 Dim sylw.

***Cwestiwn 9. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw. n benodol, defnyddiwch y darn hwn i'w nodi.***

3.25 Roedd ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad blaenorol yn cynnwys cyfeiriad at natur dameidiog y sector ac awgrym ei bod yn ystyried rheoleiddio statudol yn fesur diogelu addas yn unig: *'Mater i'r proffesiwn aciwbigo yw gweithio gyda'i gilydd i benderfynu beth ddylai'r lefel dderbyniol o hyfforddiant ac ymarfer fod ac i bwyso ar Senedd y DU i gofrestru'n orfodol.'*[3] Ymddengys bod hyn yn groes i fwriad y Llywodraeth wrth sefydlu'r rhaglen Cofrestrau Achrededig; bod yna fecanwaith i helpu'r cyhoedd i wahaniaethu rhwng yr ystod o wahanol gyrff sy'n gweithredu mewn perthynas ag aciwbigo i ddewis ymarferydd diogel a chymwys. Mae hefyd yn ymddangos yn groes i safbwynt y pedair gwlad fod Cofrestrau Achrededig yn ddewis dilys yn lle rheoleiddio statudol ar gyfer grwpiau risg is.

3.26 Mae'n bwysig mai effaith gyffredinol cyflwyno'r cynllun trwyddedu yw codi lefelau diogelu'r cyhoedd ac ategu'r hyn sydd eisoes ar waith a gobeithiwn y bydd yr awgrymiadau a wnaed gennym o gymorth i gyflawni hyn.

## 4. Rhagor o wybodaeth

4.1 Cysylltwch â ni os yr hoffech drafod unrhyw agwedd o'r ymateb hwn mewn manylder. Gallwch gysylltu â ni yn:

**Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
16-18 New Bridge St,
Llundain EC4V 6AG

E-bost: policy@professionalstandards.org.uk
Gwefan: www.professionalstandards.org.uk
Ffôn: 020 7389 8030

[3] Ymgynghoriad – crynodeb o ymatebion: Trwyddedu Mandadol ar gyfer Triniaethau Arbennig yng Nghymru (llyw.cymru)